Blodyn

Adran B

**“Rhwygodd yr amlen ar agor”**

Bore cyffredin oedd hi, y gwynt yn rhuo tu allan a’r glaw yn chwythu’n glep yn erbyn y ffenest fawr oedd yn edrych allan ar y dref. Doedd Alys heb symud modfedd o’r soffa ers iddi godi bore ma, roedd hi’n syllu’n ddwfn i mewn i ryw fyd arall. Roedd Alys yn byw ar ei phen ei hun, mewn fflat bach oedd yn edrych dros y dref, gwelai bob symudiad o’r fflat! Edrychodd draw i gyfeiriad pentwr o amlenni heb eu hagor ar y bwrdd yn y gegin fach - rhai gan y banc, rhai gan hen ffrindiau, a’r rhan fwyaf ohonynt gan bobl a oedd dal i feddwl mai’r un ddynes oedd hi ag yr arferai fod. Y ddynes oedd efo swydd, teulu a phwrpas. Ond roedd y ddynes yna wedi mynd, wedi’i chladdu o dan bwysau gormod o flynyddoedd, yn mynd ar drywydd breuddwydion ddaeth byth yn wir.

Roedd ei threfn yr un fath bob dydd, codi’n hwyr bob bore, gwneud coffi i’w hun, eistedd wrth y bwrdd yn y gegin fach, a syllu ar y twr o amlenni, nad oedd wedi eu hagor ers wythnosau, roedd hi’n ei ffeindio’n haws i beidio agor ‘run amlen i osgoi unrhyw newyddion drwg a allai fod yn llechu yn yr amlenni.

Ond, roedd heddiw’n teimlo’n wahanol i Alys. Doedd ganddi ddim syniad pam. Efallai, bod y tywydd tu allan yn gwneud iddi deimlo’n hapusach? Neu dawelwch y dref, y sŵn yr oedd hi wedi dod i arfer ag ef, ond byth yn ei anwybyddu.

Rhedodd Alys ei bysedd ar draws yr amlen oedd ar y brig yn betrusgar, a’i chalon yn pwmpio’n gyflym fel ei bod ar fin camu ar drên arswyd. Ond doedd ganddi ddim syniad pam bod ei chalon yn pwmpio mor gyflym. Roedd rhywbeth am edrychiad yr amlen yma, yr ysgrifen yn ddifyr yr olwg, cyfeiriad nad oedd hi’n ei adnabod, doedd dim cyfeiriad dychwelyd, dim ond enw a chyfeiriad Alys.

Arhosodd Alys yn stond am funud, cyn rhoi ei bys o dan y fflap a’i rwygo. Cychwynnodd ei chalon guro’n hyd yn oed cyflymach, a doedd hi dal ddim yn gwybod pam ei bod mor nerfus. Fel roedd hi’n agor yr amlen, sylwodd ar ba mor drwm oedd y papur tu fewn, doedd o ddim yn teimlo fel cynnwys amlen arferol, roedd rhywbeth yn wahanol.

“Alys, dwyt ti ddim yn cofio fi ond dwi’n cofio ti, mae gen i rwbeth pwysig dwi angen deud a rhywbeth hyd yn oed pwysicach ti angen neud.” Roedd Alys yn teimlo fel bod ei bol yn chwyrlio o gwmpas y lle, pwy oedd hwn, neu hon? Roedd y neges yn un rhyfedd iawn, ond parhaodd i ddarllen. “Mae gen ti gwestiynau, cwestiynau am pam rwyt ti yma, pam wnaeth pethau droi allan fel y gwnaethon nhw. Allai ddim esbonio mewn llythyr, ond dwi’n addo fod hwn yn rwbeth ti angen gweld efo dy lygaid dy hun. Fyddai’n aros amdanat ti am 9 o’r gloch y bore, wythnos union o ddyddiad y llythyr yma yn Lôn Sibrydion wrth dŷ rhif 38. Tyd yn brydlon - paid a bod yn hwyr. -C”

Trodd yr amlen drosodd, yn trio chwilio am lofnod ond, dim ond ‘C’ oedd ar y gwaelod. Rhedodd ei bysedd ar draws y papur mewn penbleth. “Lon Sibrydion wrth dŷ rhif 38?!” Doedd ganddi ddim syniad o’r cyfeiriad yma. A doedd y llythyren ‘C’ ar y diwedd ddim yn gwneud synnwyr chwaith?! Am beth oedd y llythyr yn sôn?! Edrychodd ar y cloc, roedd hi’n 10 o’r gloch y bore, ond roedd hi wedi derbyn y llythyr ers wythnos. Roedd hi’n rhy hwyr. Ond cafodd deimlad nad oedd wedi ei deimlo ers blynyddoedd - chwilfrydedd. Neu banig, neu ychydig o’r ddau, wyddai hi ddim yn iawn.

Neidiodd ar ei thraed, a’i phen dal yn pwmpio, a rhoddodd ei chot ymlaen, estynnodd at y bwlyn drws ond, fel roedd Alys yn ei droi, daeth cnoc ar y drws. Rhewodd Alys, pwy allai fod yno? Doedd hi byth yn cael pobl wrth y drws, dim ond pobl yn dosbarthu post, neu’r person oedd berchen y fflatiau. Allai hyn fod rywbeth i’w wneud â’r llythyr? Cychwynnodd Alys i agor y drws a’i dynnu’n gilagored fel ei bod yn gallu gweld pwy oedd yno. Am funud welodd hi ddim byd ac fel oedd hi am droi i ffwrdd, gwelodd gysgod yn symud yng nghornel ei llygaid. Roedd rhywun yn sefyll tu allan, agorodd y drws ychydig mwy i weld pwy oedd yn sefyll yno. Dyn mewn siwt ddu dywyll, yn sefyll yn dal ac yn gadarn.

“Allai helpu?” meddai Alys wrth y dyn, “Alys Davies?” meddai’r dyn. Edrychodd Alys ar y dyn yn rhyfedd. “Ie...” meddai Alys yn amheus. “Dwi yma oherwydd y llythyr.” Teimlodd Alys oerfel lawr asgwrn ei chefn, “Sut ydech chi’n gwbod am y llythyr?” meddai Alys. “Dwi yma i neud yn siŵr dy fo ti’n gwneud fel ma’r llythyr yn ei ddweud” meddai’r dyn. Edrychodd Alys mewn penbleth ar y dyn, “ond be ydy hynny?!”. Syllodd y dyn ar Alys, “dilyna fi, mae na bethau nad wyt ti’n ddeall - pethau ti angen gweld, dim ond y cychwyn oedd y llythyr” meddai’r dyn.

Teimlodd Alys ei gwddw yn tynhau. Roedd ei greddf yn dweud wrthi am gau'r drws a mynd yn ôl i gysur ei fflat bach clyd. Ond roedd brys yn y llythyr ac roedd ymddangosiad y dyn nad oedd hi erioed wedi ei weld o’r blaen, yn ormod i’w anwybyddu. Gydag anadl sigledig, camodd Alys allan o’r fflat a chau'r drws – yn

groes i’r llais yn ei phen oedd yn ei chynghori i beidio. Gofynnodd i’r dyn yn llawn pryder “Lle ydan ni’n mynd?” “I Lon Sibrydion, tŷ 38” meddai’r dyn.

Roedd y daith yn un hir, a nunlle yn edrych yn gyfarwydd i Alys, dim un tŷ, dim un stryd, pob un peth yn ddiarth. Roedd y daith yn rhy hir, doedd Alys methu stopio poeni, beth oedd yn mynd i ddigwydd? Roedd y teimlad yn wneud iddi deimlo fel ei bod yn cael ei thynnu fewn i rywbeth nag a gallai ddianc ohono. Wnaeth y dyn ddeud dim byd wrth Alys yn ystod y daith, a ddwedodd Alys ddim byd chwaith. Roedd ei meddwl yn rasio, yn mynd o un peth i’r llall. A oedd rhywbeth yn aros amdani yn Lon Sibrydion, rhywbeth a fyddai o’r diwedd yn egluro’r llythyr, y dyn rhyfedd a phopeth roedd hi wedi trio ei anghofio a ddigwyddodd yn y gorffennol?

O'r diwedd arafodd y car, a stopio o flaen tŷ enfawr oedd yn edrych yn hen iawn a chydig yn od, y ffenestri’n dywyll a glaswellt wedi gordyfu. “Dyma ni” meddai’r dyn. Camodd Alys yn ofalus allan o’r car a cherdded at ddrws y tŷ. Fel roedd hi’n estyn am bwlyn y drws, agorodd y drws heb i Alys gyffwrdd dim byd. Cymrodd gam i mewn, roedd y waliau wedi eu gorchuddio â lluniau mewn fframiau oedd yn edrych yn hen iawn. Roedd y lle yn dawel, a’r unig beth oedd i’w glywed oedd sŵn Alys yn anadlu’n ddwfn. Trodd yn ôl i edrych ar y dyn, ond fel roedd hi’n troi ei phen, caeodd y drws yn glep.

Roedd yr amlen wedi rhwygo ar agor, ac efo’r amlen daeth popeth a oedd wedi digwydd yn y gorffennol, popeth roedd Alys wedi trio ei anghofio, yn ôl.